**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Carwyn Donovan
Bectu

20 Rhagfyr 2023

**Sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor gydag aelodau Awdurdod S4C**

Annwyl Carwyn,

Ysgrifennaf atoch cyn sesiwn dystiolaeth wedi'i haildrefnu'r Pwyllgor gydag aelodau Awdurdod S4C ar 11 Ionawr 2024. Mae hyn yn dilyn cyhoeddiad gan Awdurdod S4C o adroddiad Capital Law i amgylchedd gwaith ac awyrgylch y darlledwr.

Cyn y sesiwn dystiolaeth, rwyf am roi cyfle ichi gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ar faterion y bydd Bectu efallai am eu codi gyda'r Aelodau. Gall materion o'r fath gynnwys y camau nesaf yr hoffech i weld S4C yn eu cymryd, sylwadau am y broses a arweiniodd at gyhoeddi'r adroddiad, a safbwyntiau ar y trefniadau llywodraethu presennol a'r trefniadau mewnol ar gyfer datrys pryderon Adnoddau Dynol.

Hoffwn bwysleisio na fydd Aelodau yn gallu trafod, na chodi, unrhyw faterion, pryderon neu honiadau sy'n ymwneud ag unigolion lle mae'n bosibl y bydd achosion cyfreithiol eisoes wedi dechrau, neu gellir ei dechrau yn y dyfodol. Deallaf os nad ydych yn teimlo eich bod yn gallu cyflwyno unrhyw sylwadau ar yr uchod, ond rwyf am sicrhau bod gennych y cyfle i wneud hynny.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig erbyn 5 Ionawr 2024 fan bellaf. Ni ddylai'r hyn a gyflwynir fod yn hwy na phedair ochr A4. Oni bai bod rheswm dros beidio, bydd y dystiolaeth a ddarperir ar gael i'r cyhoedd.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir,

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.